

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Y Pafiliynau, Parc Hen
Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA
CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol,
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher
14 Ionawr 2015 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor
 1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
 2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2014 yn rhai cywir. 1- 8

4 LLYWODRAETHU AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

**Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu
Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw
gyfrifoldebau gweinyddu.**

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (1) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i**

Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).

"Pam y mae Cyngor RhCT wedi rhwystro trigolion y sir, y mae nifer ohonyn nhw'n talu treth y cyngor er mwyn cynnal y gwasanaeth yr ydych chi'n bwriadu cael gwared arno, rhag cwblhau'r broses ganlynol yn llawn ar-lein: "Cynigion presennol ar gyfer newid Gwasanaeth Cerdd y Cyngor a Chyllid ar gyfer Addysg Feithrin (cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn tan 30 Ionawr 2015)"?

(2) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Oes modd i'r Arweinydd wneud datganiad ynglŷn â diogelwch cerddwyr yng nghanol tref Pontypridd ers i'r gwaith adfywio gael ei gwblhau?"

(3) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) E. Hanagan)**

"Oes modd i'r Cynghorydd Hanagan ddatgan pam, yn 2008, yr oedd hi wedi defnyddio car y Cyngor a gyrrwr i'w chludo hi i faes awyr Caerdydd?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- | | | |
|----------|--|----------------|
| 7 | Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2013/14 | 9 - 44 |
| | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | |
| 8 | Trefn Lywodraethol Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf - Sefydlu Bwrdd Pensiynau | 45 – 58 |
| | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | |


9 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 59 – 70

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

10 Mater brys – Penderfyniad y Cabinet 71 - 86

Nodi penderfyniad brys y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2014.

11 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At sylw: Pob aelod o'r Cyngor

7 Ionawr 2015

